# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 1

RHEOLI CYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

*Gweithredu'r polisi cenedlaethol ar sail ardaloedd*

### 11 Datganiadau ardal

(1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi datganiadau ("datganiadau ardal") ar gyfer yr ardaloedd o Gymru y mae CNC yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben hwyluso gweithrediad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

(2) Caiff CNC ddefnyddio'r datganiadau ardal at unrhyw ddiben arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i bob datganiad ardal—

(a) egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, drwy gyfeirio at—

(i) yr adnoddau naturiol yn yr ardal,

(ii) y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu cynnig, a

(iii) y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy;

(b) egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad;

(c) datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd, a sut y mae'n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;

(d) pennu'r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.

(4) Rhaid i CNC sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys yn o leiaf un o'r ardaloedd y mae'n paratoi datganiad ardal ar eu cyfer.

(5) Rhaid i CNC—

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2024.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 11. (See end of Document for details)

(a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal, a
(b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(6) Rhaid i CNC adolygu datganiadau ardal yn gyson a chaiff eu diwygio ar unrhyw adeg.

(7) Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC ystyried a ddylid—
(a) ymgorffori cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall yn y datganiad ardal, neu
(b) ymgorffori'r datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 11.